Rhif: WG49659

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Bil Seilwaith (Cymru)

## Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mai 2024

Ymatebion erbyn: 22 Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

Mae'r Bil Seilwaith (Cymru) yn cyflwyno cyfundrefn fodern a symlach ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr.

Mae'r Bil yn cynnwys manylion bras y broses gydsynio gyffredinol a'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Caiff llawer o'r manylion gweithdrefnol sydd eu hangen i wneud y broses gydsynio yn gwbl weithredol eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys ffioedd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio tystiolaeth er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn cael eu pennu ar y lefel gywir ar gyfer y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir gan randdeiliaid.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **22 Gorffennaf 2024** a gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: CydsyniadSeilwaith@llyw.cymru (dylech gynnwys 'Bil Seilwaith (Cymru) - Ymgynghoriad ar ffioedd' yn y llinell destun).

Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Bil Seilwaith (Cymru) – Ymgynghoriad ar ffioedd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: CydsyniadSeilwaith@llyw.cymru

Ffôn: Kym Scott ar 0300 025 8638

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni swyddogaethau a rôl graidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

Cynnwys .... 4
1. Cyflwyniad .... 5
2. Y sefyllfa bresennol o ran y Bil .... 5
3. Drafft presennol y Bil .... 6
4. Egwyddorion pennu ffioedd .... 6
5. Camau posibl yn y broses pan fo modd codi ffi .... 8
Atodiad A – Y ffioedd presennol am geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol .... 12

# PAPUR YMGYNGHORI

**Bil Seilwaith (Cymru)**

**Ffioedd**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil") yn cyflwyno cyfundrefn fodern a symlach ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr. Mae'r angen am y Bil hwn wedi deillio o Ddeddf Cymru 2017, a wnaeth ddatganoli pwerau pellach i Gymru ar gyfer cydsynio i brosiectau cynhyrchu ynni, llinellau trydan uwchben, porthladdoedd a harbyrau a mathau eraill o seilwaith.

1.2 O ganlyniad i'r ffordd y cafodd y pwerau hyn eu datganoli gan Lywodraeth y DU, mae'n golygu bod Cymru wedi gorfod defnyddio prosesau cydsynio sydd wedi dyddio nad ydynt yn addas i'r diben. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Bil yn cyflwyno proses gydsynio unedig newydd.

1.3 Mae'r Bil yn cynnwys manylion bras y broses gydsynio gyffredinol a'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Caiff llawer o'r manylion gweithdrefnol sydd eu hangen i wneud y broses gydsynio yn gwbl weithredol eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys ffioedd.

1.4 Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn, syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â lefel y ffioedd am y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir gan randdeiliaid mewn perthynas â'r broses gydsynio a sut y gellid pennu gofynion ymgynghori cyn ymgeisio yn yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn ategu'r Bil.

1.5 Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 22 Gorffennaf 2024 . Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn fyrrach na chyfnod ymgynghori safonol Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod cyfnod byrrach yn briodol am fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ran benodol iawn o'r broses y rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddi drwy'r broses craffu ar y Bil. Hefyd, y papur hwn yw'r ymgynghoriad cychwynnol ar y pwnc, a bydd ymgynghoriad manylach yn dilyn yn seiliedig ar y canlyniadau hyn. Felly, ystyrir bod cyfnod o 10 wythnos yn addas.

## 2. Y sefyllfa bresennol o ran y Bil

2.1 Ar 16 Ebrill 2024, pleidleisiodd Senedd Cymru i basio testun terfynol y Bil yng Nghyfnod 4. Caiff y Bil ei gyflwyno yn awr i gael Cydsyniad Brenhinol.

## 3. Drafft presennol y Bil

*Deddfwriaeth sylfaenol*

3.1 Mae'r Bil yn cynnwys pwerau eang eu cwmpas ynglŷn â ffioedd y bwriedir iddynt sicrhau adnoddau i'r sefydliadau hynny a fydd yn darparu gwasanaethau ac yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chydsyniad seilwaith.

3.2 Mae adran 124 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag awdurdod cyhoeddus penodol yn codi ffioedd am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac am ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith.

3.3 Mae adran 124 hefyd yn sicrhau y gellir adennill unrhyw gostau yr eir iddynt fel rhan o'r broses gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

3.4 Mae adran 130 yn darparu'r gallu i'r awdurdodau cyhoeddus hynny adennill eu costau am bethau a wneir o dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Pan gyflawnir swyddogaethau penodol (e.e. arddangos hysbysiad safle).

*Is-ddeddfwriaeth*

3.5 I gyd-fynd â'r Bil, mae 'Datganiad o Fwriad y Polisi' wedi'i gyhoeddi sy'n nodi'r materion y rhagwelir y cânt eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw faterion a gynigir ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad pellach. Gellir gweld copi o'r ddolen i'r Datganiad o Fwriad y Polisi isod:

Datganiad o Fwriad y Polisi – 1 Medi 2023.pdf (senedd.cymru)

Atodiad ir Datganiad o Fwriad y Polisi - 15 Mawrth 2024.pdf (senedd.cymru)

## 4. Egwyddorion pennu ffioedd

*Galluogi adennill costau*

4.1 Bwriedir i'r broses gydsynio weithredu ar sail adennill costau llawn ac mae'r Bil yn darparu'r fframwaith i gyflawni hyn. Y syniad wrth wraidd adennill costau yw caniatáu i'r rhanddeiliaid hynny sy'n cyflawni swyddogaeth mewn perthynas â'r broses cydsyniad seilwaith adennill y costau y maent yn mynd iddynt wrth wneud hynny. Mae hyn ar y sail na wneir elw na cholled o ganlyniad i gyflawni swyddogaethau o'r fath. Bwriedir i'r costau hyn gael eu cynnwys mewn costau sy'n gysylltiedig â'r cais, a ariennir gan y datblygwr.

4.2 Bydd y broses o wneud cais am gydsyniad seilwaith yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan Weinidogion Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ac ymgyngoreion arbenigol eraill. Ein nod yw sicrhau y gall y partïon hyn adennill eu costau am unrhyw fewnbwn sydd ei angen.

4.3 Bwriedir i fanylion penodol yr hyn y mae adennill costau llawn yn ei olygu o ran y broses hon, gael eu llywio gan yr ymgynghoriad hwn a gweithgarwch ymgysylltu arall â rhanddeiliaid. Mae llawer o faterion i'w hystyried, megis y ffaith bod rhai ymgyngoreion eisoes yn cael eu hariannu gan y llywodraeth a bod problem bosibl yn gysylltiedig â chyfrif ffioedd ddwywaith sydd angen ei hystyried.

**Cwestiwn 1:**

**A ydych yn cytuno y dylai'r Bil weithredu ar sail adennill costau llawn?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Syml a thryloyw*

4.4 Bydd y gyfundrefn ffioedd yn syml ac yn dryloyw. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn cynnig y dylai'r system ffioedd gynnwys ffioedd a godir ar lefelau sefydlog ac amrywiadwy. Er enghraifft, ffi sefydlog am waith dilysu a ffi amrywiadwy i dalu cost yr archwiliad (yn seiliedig ar nifer yr archwilwyr a nifer y diwrnodau a gymera'r archwiliad).

4.5 Gall costau amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad datblygiad arfaethedig a gall ffactorau eraill megis chwyddiant effeithio ar gostau.

**Cwestiwn 2:**

**A ydych yn cytuno y dylai ffioedd allu ystyried ffactorau megis chwyddiant? Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Cymesur*

4.5 Gellir graddio ffioedd hefyd, yn dibynnu ar gymhlethdod achos, er enghraifft os bydd y cais yn gofyn am Offeryn Statudol (OS) ai peidio. Os bydd cais yn fwy cymhleth, am ei fod yn gofyn am OS, gellid codi ffi uwch o gymharu ag achos llai cymhleth nad yw'n gofyn am OS.

**Cwestiwn 3:**

**A ydych yn cytuno y dylai ffioedd amrywio yn dibynnu ar faint, graddfa a lleoliad datblygiadau arfaethedig? Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Teg*

4.6 Bydd unrhyw ffioedd perthnasol yn seiliedig ar gost lawn darparu gwasanaethau. Os na ddarperir gwasanaeth, a ddylai'r system ffioedd ddarparu dull adennill?

**Cwestiwn 4:**

**A ydych yn cytuno y dylai ffioedd ddarparu dull adennill os na ddarperir y gwasanaeth?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Ffioedd Cenedlaethol a Lleol*

4.7 Am fod y pŵer i wneud rheoliadau yn eang ei gwmpas, gallai ffioedd hefyd gael eu codi yn lleol ac yn genedlaethol. Gallai hyn olygu bod cyrff yn pennu eu ffioedd eu hunain am brosiectau seilwaith arwyddocaol yn seiliedig ar egwyddorion penodol ynglŷn ag adennill costau. Er enghraifft, gallai fod yn ffi a bennir yn genedlaethol, fel y system gynllunio, neu'n ffi a bennir yn lleol fel y system rheoliadau adeiladu.

**Cwestiwn 5:**

**A oes gennych unrhyw sylwadau ar ffioedd lleol a chenedlaethol?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich safbwynt.**

**Cwestiwn 6:**

**A oes angen gosod mesurau diogelu ar system ffioedd a bennir yn lleol (e.e. ymgynghori ar lefel ffi arfaethedig, adrodd ar berfformiad)?**

## 5. Camau posibl yn y broses pan fo modd codi ffi

5.1 Mae'r Bil yn ystyried gwersi a ddysgwyd o brosesau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gorchmynion Cydsyniad Datblygu. Yn debyg i'r cydsyniadau presennol hyn, mae'r gyfundrefn gydsynio newydd yn broses lle y bydd yn rhaid i gais fynd drwy wahanol gamau at benderfyniad. Fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gorchmynion Cydsyniad Datblygu, mae cost i Weinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol yn gysylltiedig â phob cam.

5.2 Yn debyg i geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, bwriedir seilio ffioedd ar gost darparu gwasanaethau a chyflawni swyddogaethau amrywiol sydd eu hangen i benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, yn hytrach nag ar y math o ddatblygiad arfaethedig neu ei faint. Nodir pob cam o'r broses lle y rhagwelwn gost gysylltiedig isod:

*Ffioedd am Wasanaethau Cyn Gwneud Cais*

5.3 Cynigir y bydd ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Weinidogion Cymru, ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cwestiwn 7:**

**A ydych yn cytuno y dylid codi ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Ffioedd am Hysbysiad Cyn Gwneud Cais*

5.4 Cyn gwneud cais am gydsyniad seilwaith, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr hysbysu Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill o'u bwriad i gychwyn ymgynghoriad cyn ymgeisio. Bydd hyn ar ffurf hysbysiad cyn gwneud cais. Cynigir y caiff ffi sefydlog ei chodi er mwyn gwrthbwyso cost prosesu hysbysiad cyn gwneud cais ac ymateb iddo.

**Cwestiwn 8:**

**A ydych yn cytuno y dylai fod ffi sefydlog am gyflwyno hysbysiad cyn gwneud cais?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Ffioedd am Wneud Cais a'i Archwilio*

5.5 Bydd ffioedd gwneud cais yn cynnwys ffioedd sefydlog ac amrywiadwy, oherwydd bydd elfennau penodol o'r broses yn rhai safonol a bydd eraill yn dibynnu ar faint a graddfa datblygiad arfaethedig. Codir ffi am archwilio cais ar gyfradd amrywiadwy a bydd hyn yn helpu i leihau costau archwilio a sicrhau mai dim ond am yr amser a dreuliwyd yn archwilio eu cais a phenderfynu arno y codir ffi ar ymgeiswyr.

**Cwestiwn 9:**

**A ydych yn cytuno y dylai ffioedd gwneud cais fod yn sefydlog ac yn amrywiadwy? Er enghraifft, gallai ffi sefydlog gael ei thalu pan gyflwynir cais a gallai ffi amrywiadwy gael ei thalu mewn perthynas â hyd a chymhlethdod yr archwiliad.**

**Cwestiwn 10:**

**A ydych yn cytuno y dylai ffioedd archwilio fod yn amrywiadwy? (h.y. cyfraddau dyddiol)**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Ffioedd am Adroddiad ar yr Effaith Leol neu Adroddiad ar yr Effaith Forol*

5.6 Ein bwriad yw y bydd ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ffi am gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol neu Adroddiad ar yr Effaith Forol yn ystod y broses gwneud cais. Ffi sefydlog fydd hon, am ei bod yn debygol y bydd yr Adroddiad ar yr Effaith Leol neu'r Adroddiad ar yr Effaith Forol yn cynnwys gwybodaeth safonol.

**Cwestiwn 11:**

**A ydych yn cytuno y dylai ACLlau a Cyfoeth Naturiol Cymru gael ffi am gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad ar yr Effaith Forol?**

**Cwestiwn 12:**

**A ydych yn cytuno y dylai'r ffi hon fod yn un sefydlog?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Ffioedd Penderfynu ac Ôl-benderfyniad*

5.7 Ein bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn codi ffi sefydlog am benderfynu ar orchymyn cydsyniad seilwaith. Bydd ffioedd hefyd am wneud cais i ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

**Cwestiwn 13:**

**A ydych yn cytuno y dylai fod ffi am benderfynu ar orchymyn cydsyniad seilwaith?**

**Cwestiwn 14:**

**A ydych yn cytuno y dylai'r ffi hon fod yn un sefydlog?**

**Cwestiwn 15:**

**A ydych yn cytuno y dylai fod ffioedd am ddiwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

*Ffioedd eraill*

5.8 Gellid cynnwys ffioedd eraill mewn rheoliadau, megis ffioedd a godir gan awdurdod lleol penodedig, megis ymgyngoreion statudol

**Cwestiwn 16:**

**A oes gennych unrhyw sylwadau ar ymgyngoreion statudol yn codi ffioedd?**

**Wrth roi eich ateb, ystyriwch y canlynol:**
- **Y cam yn y broses pryd y dylai corff cyhoeddus godi ffi.**
- **Os telir ffi i gyrff cyhoeddus penodedig, a ddylai fod yn ffi sefydlog?**
- **Os telir ffi i gyrff cyhoeddus penodedig, a ddylid talu'r un ffi i bob corff?**

**Rhowch unrhyw dystiolaeth a all fod gennych i gefnogi eich safbwynt.**

**Cwestiwn 17:**

**Yn eich barn chi, a ddylid cynnwys unrhyw ffioedd neu gostau eraill yn y broses?**

**Cwestiwn 18:**

**A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud neu dystiolaeth i'w chyflwyno mewn perthynas â'r ffioedd arfaethedig, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau?**

**Cwestiwn 19:**

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai codi ffioedd mewn perthynas â chydsyniad seilwaith yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 20:**

**Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig i godi ffioedd gael ei llunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu**

**effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

## Atodiad A – Y ffioedd presennol am geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Mae'r gyfundrefn datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn codi ffioedd ar wahanol gamau o'r broses gydsynio ac isod nodir y ffioedd presennol[1], ar 2024.

**Ffioedd am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau cyn gwneud cais** | ACLI – £1,500<br><br>Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru – Cyfradd fesul awr o £55 (ynghyd â TAW) |
| **Hysbysiad** | £580 |
| **Ffi Gychwynnol (a delir ar adeg cyflwyno'r cais)** | £15,350 |
| **Ffi am Adroddiad ar yr Effaith Leol (a delir ar adeg cyflwyno'r cais)** | £7,750 |
| **Ffioedd am Archwilio'r Cais** | Sylwadau Ysgrifenedig – cyfradd ddyddiol o £870<br><br>Gwrandawiad neu Ymchwiliad – Cyfradd ddyddiol o £920 |
| **Ffi benderfynu (sy'n gymwys i bob prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, ac eithrio ceisiadau ar gyfer llinellau trydan uwchben)** | £14,700 (a delir yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru) |

[1] canllawiau-datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-ffioedd-a-chyllid.pdf